

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/LG/0800/14

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd, CF99 1NA

29 Awst 2014

Annwyl Jocelyn,

**BIL TRAIS AR SAIL RHYWEDD, TRAIS DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) – Y
PWYLLGOR CYLLID – CAIS AM WYBODAETH BELLACH**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Gorffennaf 2014 yn gofyn am eglurhad pellach ar oblygiadau ariannol Bil Trais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ("y Bil"), sy'n destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid ar hyn o bryd. Mae fy safbwyntiau mewn ymateb i bob un o'ch pwyntiau i'w gweld yn Atodiad A.

Fy ngweledigaeth ar gyfer y Bil hwn yw, yn y dyfodol, na fydd dioddefwyr trais ar sail rhywedd, trais domestig a thrais rhywiol bellach yn gorfod mynd ar hyd llwybrau gofal anodd ac y byddant yn gallu dod o hyd i wasanaeth a all eu helpu. Bydd dioddefwyr hefyd yn gallu cael gwasanaethau gan weithlu medrus ac ymwybodol, a fydd yn ymateb yn effeithiol ac yn rhoi cymorth arbenigol yn gyflym. Rwyf hefyd eisiau bod dioddefwyr yn cael gwasanaethau arbenigol sydd o'r un ansawdd waeth ble y maent yn cael eu darparu, ac y bydd y gwasanaethau hyn yn rhan o bartneriaeth gydweithredol o weithwyr proffesiynol a all ymdrin â holl anghenion dioddefwyr.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r Aelodau i graffu ar y Bil, ond mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd gennych unrhyw ymholiadau pellach neu os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch am unrhyw agwedd ar hyn.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Christine Chapman AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end of the name.

Lesley Griffiths AC / AM

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business

Atodiad A

Pwynt 1 – Cyllid ychwanegol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru

O ystyried bod y costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar gyfer bob blwyddyn o 2015-16 i 2017-18 yn amrywio rhwng £0.4 miliwn a £0.5 miliwn, byddai'n ddefnyddiol cael eglurder ynghylch a yw'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn ddigonol i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth, yn enwedig o gofio y rhagwelir y bydd y broses o weithredu'r Ddeddf yn arwain at gynnydd pellach yn nifer y cleientiaid sy'n cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus ac arbenigol, a chostau ychwanegol posibl y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Cynyddais gyllideb 2014-15 i £4 miliwn, sef cynnydd o £0.33 miliwn. Hefyd rwyf wedi darparu cyllid cyfalaf o £500,000 eleni i adeiladu'r seilwaith angenrheidiol a chefnogi darparwyr gwasanaethau. Er bod hyn yn destun proses y gyllideb ddrafft o hyd, rwy'n gobeithio o leiaf cynnal y gyllideb eto yn y flwyddyn ariannol nesaf, os nad ei chynyddu.

Mae'r gyllideb bresennol eisoes yn cyfrif am gostau cyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'r rhaglen Perthynas Iach, felly nid costau newydd yw'r rhain. Cost ychwanegol o £92,500 fydd ar gyfer y Cynghorydd Gweinidogol yn 2015-16, ac £81,000 y flwyddyn wedi hynny, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (tudalen 47). Rwy'n chwilio am adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn.

Yn fwy cyffredinol, rwy'n ymwybodol iawn ei bod yn debygol y bydd y Bil yn arwain at gynnydd mewn atgyfeiriadau. Gallai cynnydd mewn atgyfeiriadau ac ymyriadau arwain at gynnydd mewn galw ac felly cost i wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r gost gynyddol hon yn llawer llai na'r gostyngiad yng nghost colli allbwn economaidd a gostyngiad yng nghostau dynol ac emosiynol y materion.¹ Mae datblygu a'r defnydd cynyddol o wasanaethau cyhoeddus hefyd yn cyfrif (yn rhannol) am ostyngiad mewn trais domestig.

Mae ymchwil flaenorol yn dangos y dylai gweithio'n well gyda'r Gwasanaeth Cyhoeddus arwain at ostyngiad yng nghost trais domestig dros gyfnod cymharol fyr, a fydd yn fwy na chostau cynnydd mewn datgeliadau. Roedd diweddariad Walby² yn 2009 (o ymchwil 2004) yn dangos bod cyfanswm cost trais domestig wedi gostwng £23 biliwn i oddeutu £16 biliwn y flwyddyn, a bod y gostyngiad hwn wedi digwydd yn rhannol yn sgil datblygu a'r defnydd cynyddol o wasanaethau cyhoeddus. Daeth i'r casgliad fod buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus i leihau trais domestig yn effeithiol o ran cost.

Rwy'n adolygu'r strwythur cyllido presennol i nodi'r model mwyaf priodol o ail hanner 2015-16 ymlaen. Y flaenoriaeth bennaf i mi yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn y ffordd fwyaf briodol i sicrhau bod gwasanaethau effeithiol yn cael eu cefnogi a'u bod ar gael i'r rheini sydd eu hangen, ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn.

Pwynt 2 – Costau sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu Llywodraeth Leol

Byddai'n fuddiol gwybod a fyddai'n ofynnol i awdurdodau lleol sydd newydd uno gynhyrchu strategaethau newydd, a pha asesiad o'r costau hyn cyn 2017-18 sydd wedi'i wneud.

Bydd y Pwyllgor yn deall, adeg cyhoeddi'r Bil a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol, nad oeddem wedi cyhoeddi'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth

¹ Mae hefyd yn debygol bod y gostyngiad hwn yn amcangyfrif rhy isel gan ei fod yn cyfeirio at drais domestig yn unig ac nid at fathau eraill o drais ar sail rhywedd fel trais rhywiol, priodas dan orfod neu anffurfio organau cenedlu benywod.

² Walby, S., *The Cost of Domestic Violence: Up-date 2009*.

Leol'. Mae'r Papur Gwyn yn destun ymgynghoriad 12 wythnos ar hyn o bryd a fydd yn dod i ben ar 1 Hydref ac a fydd yn arwain at Fil i roi'r pwerau y mae eu hangen i uno awdurdodau mewn ffordd gydlynus a threfnus, i'w cyflwyno ym mis Ionawr 2015.

Mae felly'n rhy gynnar i wneud amcan o'r costau ar gyfer strwythur awdurdod lleol nad yw'n bodoli eto. Mae'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig, ac ond yn gallu bod yn seiliedig, ar y 22 o awdurdodau lleol presennol. Fodd bynnag, fel y tynnoch sylw ato'n briodol yn eich llythyr, gallai cyfanswm cost datblygu strategaethau lleol fod yn is, a hynny os, fel sy'n debygol, y bydd llai o awdurdodau unigol yn ennyn costau. Byddai hyn yn debygol o arbed arian yn y tymor hwy.

Hefyd, amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer datblygu strategaeth leol oedd £8,300, wedi'i rannu rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Nid yw'r costau hyn yn debygol o newid waeth beth fydd strwythur awdurdodau lleol yng Nghymru.

Fel y nodir yn y Papur Gwyn, nid oes bwriad cyflwyno deddfwriaeth i uno a diwygio awdurdodau cyn mis Mai 2016. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu cyflwyno Bil drafft ar gyfer ymgynghoriad yn hydref 2015 yn esbonio sut y bydd uno yn digwydd, gan gynnwys darpariaethau er mwyn galluogi'r diwygio ehangach rwyf eisoes wedi'i amlinellu.

Rwy'n cydnabod, yng ngoleuni hyn, y bydd angen ystyried ymhellach y gofyniad i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gyhoeddi eu strategaethau lleol cyntaf ymhen blwyddyn ar y mwyaf ar ôl dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol cyntaf ar ôl cychwyn. Byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y diweddaraf am hyn wrth i'r Bil fynd drwy'r cyfnod craffu.

Pwynt 3 – Canllawiau statudol

Byddai'n ddefnyddiol deall a yw Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y meysydd y mae'n bwriadu cyhoeddi canllawiau arnynt, ac a fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â hyn.

Mae'r pŵer i wneud canllawiau yn adran 12 y Bil yn fwriadol eang – gellir cyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth sy'n cael ei arfer gan awdurdod perthnasol a allai gyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf.

Fel yr esboniais i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 17 Gorffennaf, o ystyried natur eang y pŵer, nid yw'n bosibl – nac yn ddoeth – rhestru pa ganllawiau y bydd eu hangen neu na fydd eu hangen dros y blynyddoedd i ddod. Drafftwyd y Bil i sicrhau y gall unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol ymateb yn briodol ac yn rhagweithiol i anghenion, newidiadau deddfwriaethol ac arferion sy'n codi drwy gyhoeddi canllawiau priodol.

Yn hytrach na chyfyngu'r canllawiau posibl drwy geisio rhestru'r materion yn hollgynhwysfawr ar wyneb y Bil, bydd fy null gweithredu'n rhoi mwy o le am hyblygrwydd a'r cyfle i ymateb i anghenion dioddefwyr trais ar sail rhywedd, trais domestig a thrais rhywiol, gyda pholisi synhwyrol, canllawiau gweithredu manwl, egwyddorion ymarferol a chanlyniadau clir.

Rhoddais dair enghraifft i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol o'r mathau o ganllawiau rydym yn bwriadu eu cyhoeddi o dan adran 12, sef Cydweithredu Aml-asiantaeth, y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a Gofyn a Gweithredu. Fel y gwyddoch, drafftiau cynnar yw'r rhain i helpu gydag ystyried y Bil. Bydd y broses ymgysylltu ac ymgynghori arferol yn cael ei chynnal cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau o dan adran 12.

Mae'r cynlluniau uniongyrchol ar gyfer canllawiau ychwanegol yn ymdrin â rhannu gwybodaeth a chomisiynu effeithiol ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Mae fy swyddogion yn cynllunio'r gwaith hwn nawr ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid arbenigol. Rwy'n gobeithio y bydd drafftiau ar gael i ymgynghori arnynt yn gynnar yn 2015. Wedi hynny, ac os bydd angen, gellid cyhoeddi canllawiau ar godi ymwybyddiaeth er enghraifft i lywio newid diwylliannol hollbwysig ar y materion hyn, a'r dull ysgol gyfan, i sicrhau bod ein pobl ifanc yn deall pwysigrwydd perthynas iach.

Bydd angen adnoddau i ryw raddau ar gyfer unrhyw ganllawiau ychwanegol. Drafftiwyd cryn dipyn o'r canllawiau a roddwyd i'r Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru, gyda mewnbwn gan arbenigwyr penodedig. Bydd adnoddau pellach yn cael eu targedu adeg creu'r canllawiau comisiynu a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr cyfreithiol. Rwy'n disgwyl y bydd costau'r canllawiau comisiynu yn rhai untro o oddeutu £7,000. Rwy'n disgwyl y bydd y canllawiau rhannu gwybodaeth yn gofyn am fewnbwn mwy dwys gan wahanol asiantaethau ac arbenigwyr, ac felly gallai'r costau fod yn uwch. Fy nghyllideb bresennol fydd yn talu'r costau hyn.

Pwynt 4 – Costau cyfle y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'r elfen Gofyn a Gweithredu

Er mwyn asesu gwerth am arian y rhan hon o'r Bil, byddai o gymorth canfod a oes unrhyw asesiad wedi'i wneud yn y meysydd hyn, ac a yw Llywodraeth Cymru yn credu bod manteision yr hyfforddiant hwn yn gorbwyso'r costau cyfle.

Mae'r costau cyfle yn ymwneud ag ymrwymiad amser y gweithwyr proffesiynol, fel yr amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, i gwblhau lefel berthnasol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (tudalen 39 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol). Mae hyn yn cynnwys lefel 2, sef darparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (fel sydd wedi'i grynhoi ar dudalen 42 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

Rwy'n argyhoeddedig bod manteision yr hyfforddiant hwn yn fwy na'r costau cyfle. Mae'r disgwyliadau am effeithiolrwydd cost y model yn cynnwys arbedion ychwanegol yn gysylltiedig â chostau llai i'r system cyfiawnder troseddol, yr economi ac mewn perthynas ag ansawdd bywyd gwell i'r rheini sy'n dioddef yn sgil trais a cham-drin o'r fath.

Mae'r amcangyfrifon ar sail poblogaeth sy'n berthnasol i adroddiad Walby (y cyfeiriais ato uchod) yn awgrymu bod trais domestig ei hun yn costio tua £303.5m y flwyddyn i Gymru – £202.6m mewn costau gwasanaeth a £100.9m yn sgil colli allbwn economaidd. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw elfen o gostau dynol ac emosiynol, sydd yn ôl amcangyfrifon yr ymchwil yn costio £522.9m ychwanegol i Gymru. Y cyfanswm felly yw £826.4m. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys mathau eraill o drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol, sydd hefyd yn arwain at gostau dynol, emosiynol ac ariannol sylweddol i gymdeithas. Ar sail costau ariannol sylweddol cam-drin domestig i'r economi, mae Walby yn dadlau bod buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau cyhoeddus i leihau trais domestig yn effeithiol o ran cost.

Amcangyfrifir bod costau ychwanegol y Bil hwn rhwng £1.1m a £2m y flwyddyn (fel yr amlinellir ar dudalen 60 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol) yn ystod y pedair blynedd ariannol nesaf (2015-16 i 2018-19). Mae hyn yn gyfran o gostau cyffredinol trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i'r wlad. Er nad yw wedi bod yn bosibl mesur yn llawn y manteision sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn (mae prinder data penodol i Gymru am gostau'r materion hyn, gyda'r mwyafrif o'r gwaith hwn yn berthnasol i Gymru a Lloegr gyda'i gilydd), mae'n dilyn y byddai angen effaith fach yn unig ar nifer a/neu ddifrifoldeb y fath achosion o drais a cham-drin er mwyn i fanteision y cynigion fod yn fwy na'r costau ychwanegol.

Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun i'r ffigurau hyn, mae'n bosibl cyfuno data costau Walby gyda rhywfaint o ddata ynghylch nifer yr achosion Cymru i lunio rhai amcangyfrifon am gostau i rannau o wasanaeth cyhoeddus Cymru yn sgil ymddygiadau penodol. Rwyf wedi rhoi rhai enghreifftiau yma; mae modd allosod yn yr un modd mewn perthynas â llawer o fathau eraill o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- Gan ystyried y 140,000 o bobl rydym yn credu sy'n dioddef cam-drin domestig bob blwyddyn yng Nghymru, a chymryd yr amcangyfrifon isaf o adroddiadau cam-drin domestig i'r heddlu (23%) a chyfradd gyhuddiadau Gwasanaeth Erllyn y Goron o 65% (yn 2012-2013), a chan gymhwyso costau erlyn i'r cyhuddiad ymosodiad lefel isaf yn unig (adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988), mae amcangyfrifon costau Walby yn nodi bod hyn yn unig yn costio tua £4.5 miliwn y flwyddyn i Gymru.*
- Mae enghraifft eraill yn ymwneud ag achosion o drais rhywiol: derbyniwyd 940 o atgyfeiriadau aciwt oherwydd treisio i Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol y llynedd. Mae'r rhain yn debygol o fod wedi costio £640,000 i wasanaethau ysbytai ac ambiwlans yng Nghymru.
- O ran tai, roedd 22% o'r ceisiadau digartrefedd a dderbyniwyd yng Nghymru y llynedd (ar sail sefyllfaoedd bregus) oherwydd cam-drin domestig. Mae data Walby, ar sail dim ond y gost i dimau tai awdurdodau lleol, yn nodi bod costau hyn oddeutu £5.5 miliwn.
- Amcangyfrif y Swyddfa Gartref yw bod llofruddiaeth ddomestig yn costio dros filiwn o bunnoedd: cyfanswm o £1,097,330 am un farwolaeth. Yn ôl ACPO Cymru, roedd 4 llofruddiaeth ddomestig yng Nghymru yn 2013, sy'n gyfwerth â £4.3 miliwn.³

Nid oes modd gwybod pa gyfran o'r costau hyn sy'n ymwneud â'r un bobl, ac nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys amcangyfrifon o gostau cyfreithiol sifil, costau amddiffyn plant na'r costau i'n gwasanaeth iechyd meddwl a chyffuriau ac alcohol. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod yr ychydig enghreifftiau hyn o gostau uniongyrchol i wasanaethau penodol yn dangos y byddai gostyngiad bach yn unig yn cyfiawnhau costau'r Bil. Yn wir, byddai atal dwy farwolaeth a achosir gan gam-drin a thrais o'r fath hefyd yn gyfwerth ag uchafswm cost flynyddol y Bil. Hefyd, ni ellir gorbwysleisio'r costau dynol o ran lleihau'r nifer sylweddol o bobl sy'n dioddef yn sgil y materion hyn neu'n cael eu cam-drin yn rheolaidd.

Mae'r diffyg fframwaith hyfforddi cynhwysfawr a chyson ym maes trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn golygu bod gweithwyr proffesiynol wedi troi at yr amryw gyrsiau hyfforddi niferus sydd ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru, ar sail diddordeb unigol yn y gwaith hwn, yn hytrach nag yn ôl cyfarwyddyd gan arweinwyr i wella sgiliau staff. Nid oes cwmpas cenedlaethol a chyson ar yr hyfforddiant ar y materion hyn; mae strwythur y cyrsiau yn anghydweddol ac mae'r cynnwys a'r ansawdd yn amrywio.

Mae amrywiaeth y cyrsiau sydd ar gael yn achosi anhawster o ran pennu ar lefel genedlaethol yr ymrwymiad amser y mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn ei roi ar gyfartaledd ar hyn o bryd i ddatblygu proffesiynol ym maes trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, bydd cyfran o'r staff perthnasol eisoes yn ymrwymo amser i ddatblygu proffesiynol yn y maes hwn ac felly'n ennyn rhai o'r costau cyfle.

³ Mae'r ffigurau hyn yn cymryd y lefel isaf o adroddiadau a'r drosedd isaf bosibl lle mae data costau ar gael. Amcangyfrifon yw'r rhain sy'n defnyddio data penodol i Gymru sydd ar gael drwy'r Adolygiad o Wasanaethau sydd newydd ei gyhoeddi (UCLAN) a Stats Cymru. Daw'r data ar achosion o dreisio o ddata atgyfeiriadau aciwt gan Ynys Saff a Llwybrau Newydd, a diolch iddynt am hynny. Mae'n bwysig nodi bod dioddefwyr benywaidd sydd wedi dioddef cam-drin domestig difrifol mewn 18 o achosion fel cyfartaledd cymedrig, a chyfartaledd o 6 o achosion i ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig. (Walby 2004 –ar sail ystadegau Arolwg Troseddu Prydain)

Ar hyn o bryd nid oes trefn ar gyfer alinio'n ffurfiol na sicrhau ansawdd y cyrsiau lleol hyn, ac nid ydynt ychwaith bob amser yn gysylltiedig â seilwaith cenedlaethol neu leol. Bydd creu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn safoni ac yn sicrhau ansawdd yr hyfforddiant ar y pynciau hyn sydd ar gael yng Nghymru, a bydd hefyd yn gosod yr hyfforddiant hwn yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol sy'n cefnogi'r Bil.

Bydd modd i weithwyr proffesiynol weithredu'n gyflym ac yn effeithlon drwy lwybrau gofal syml a hygyrch. Y canlyniad yw y bydd yr effeithlonrwydd o ran adnabod dioddefwyr, cynnig cymorth iddynt a'u hatgyfeirio yn gwrthbwysu'r amser ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant. Bydd gwella cysondeb mewn arferion gwaith, a fydd â gofynion clir mewn perthynas â'r cymorth y mae ei angen ar ddioddefwyr, yn gwella perfformiad lleol a chenedlaethol.

Wrth gwrs, nid manteision ariannol yn unig sydd i'r hyfforddiant. Mae angen ymateb cryf a chyson gan ystod o asiantaethau i wella canfyddiad y rheini sy'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol o effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae hyn yn glir yng ngwerthusiadau prosesau aml-asiantaeth (Robinson 2005) a thrwy adborth defnyddwyr gwasanaeth y prosiect 10,000 o Fywydau Mwy Diogel. Drwy gynnig gwasanaeth cyson ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, gyda negeseuon a llwybrau gofal cyson, yn codi hyder cleientiaid.

Pwynt 5 – Is-ddeddfwriaeth

Felly, ymddengys yn debygol y bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r pum pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil yn cael eu cwmpasu gan y maes hwn; fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol cael cadarnhad o hyn.

Dylwn egluro fod dau ddarn o is-ddeddfwriaeth ar gyfer gwneud pwerau yn y Bil – rheoliadau o dan adran 6 a gorchmynion cychwyn o dan adran 22. Nid yw cyfarwyddiadau a wneir gan Weinidogion Cymru a chanllawiau a gyhoeddir o dan adran 12 yn is-ddeddfwriaeth.

Gallaf gadarnhau mai Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r costau gweinyddu sy'n gysylltiedig â defnyddio'r pwerau is-ddeddfwriaeth yn y Bil (ac a amlinellir yn y datganiadau o Fwriad y Polisi) drwy'r costau a ddarperir i helpu i roi'r Strategaeth Genedlaethol ar waith yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

